

Aelod a Delir o Dribiwnlys y Gymraeg

Agor am geisiadau: 15 Mai 2019

Dyddiad cau: 29 Mai 2019

Nifer y swyddi: 1

Ffi a delir: £503 y diwrnod

Lleoliad: Cymru

Gofynnwyd i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (CPB) enwi un ymgeisydd i'w argymhell fel Aelod o Dribiwnlys y Gymraeg.

Pwy sy'n cael gwneud cais

Mae'r ymarfer hwn yn agored i gyfreithwyr a bargyfreithwyr gydag o leiaf 5 mlynedd o brofiad cyfreithiol ar ôl cymhwyso.

Rhaid i ymgeiswyr allu deall, siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg i safon a fydd yn galluogi'r unigolyn hwnnw i gyflawni busnes y Tribiwnlys yn y ddwy iaith.

Ar ben hynny, bydd angen i ymgeiswyr ddeall y drefn gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, neu feddu ar y gallu i ddysgu am hynny, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru a threfniadau datganoli yng Nghymru.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn iau na 70 oed ar y dyddiad penodi.

Gwybodaeth am y rôl

Mae Tribiwnlys y Gymraeg yn dribiwnlys annibynnol sy'n delio ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau gan Gomisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Bydd yr Aelod o'r Tribiwnlys yn llywyddu gwrandawiadau, yn cadeirio trafodaethau'r panel am ei benderfyniadau ac yn cynghori'r panel ar faterion cyfreithiol.

Mae gweinyddiaeth y Tribiwnlys yn ne-ddwyrain Cymru Rhaid i ymgeiswyr fod ar gael i weithio ledled Cymru a gallu aros dros nos pan fo angen. Ni fydd gwarant o ran nifer y diwrnodau gwaith, fel arfer bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fod ar gael am oddeutu 5 diwrnod y flwyddyn, neu oriau cyfwerth â hynny.

Gwybodaeth am y broses

Drwy gydol y broses ddethol, bydd yr ymgeiswyr yn cael eu hasesu yn erbyn fframwaith cymhwysedd sydd wedi'i deilwra'n benodol i rôl Aelod o Dribiwnlys y Gymraeg. Mae'r cymwyseddau'n rhestru'r ffyrdd mae unigolyn yn dangos y sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol wrth weithio'n effeithiol mewn swydd.

Gallwch [greu cyfrif ar-lein](#) cyn i chi wneud cais. Mae'n rhaid i bob ymgeisydd greu cyfrif ar system ceisiadau ar-lein y Comisiwn Penodiadau Barnwrol cyn gwneud cais am swydd farnwrol. Bydd eich cyfrif yn cynnwys eich proffiliau personol, cymeriad ac amrywiaeth. Cedwir yr wybodaeth hon ar y system, felly os byddwch chi'n gwneud cais am swydd arall yn y dyfodol, dim ond diweddarau eich manylion fydd raid i chi ei wneud. Mae hynny'n sicrhau bod y broses gwneud cais yn gyflymach ac yn haws.

[Cofrestrwch i gael](#) hysbysiadau e-bost am y diweddaraf am yr ymarfer hwn hyd at ei lansio.